Beth yw sgan Darlifiad Myocardiaidd?

Mae sganiau Meddygaeth Niwclear yn ddulliau delweddu sy'n defnyddio sylweddau ymbelydrol er mwyn gweld strwythurau a swyddogaethau y tu fewn i'r corff. Mae camera arbennig (canfodydd ymbelydredd) yn olrhain trywydd maint bach o ymbelydredd a roddir yn y corff drwy bigiad er mwyn canfod gwybodaeth ynghylch swyddogaeth organ penodol (sef y galon yn yr achos hwn).

Mae sgan Darlifiad Myocardiaidd yn defnyddio'r dechneg hon i roi gwybodaeth am y cyflenwad gwaed i gyhyau'r galon.

Oes rhaid imi ymbaratoi?

Cyn y sgan, NID OES rhaid i chi ymprydio. Argymhellir eich bod chi'n cael brecwast ysgafn cyn dod i'r adran. Nodwch, ddylai'r brecwast DDIM cynnwys unrhyw GAFFEIN. Mae hyn yn cynnwys disgledi o de. Darllenwch yn ofalus drwy'r rhestr o feddyginiaethau efallai bydd angen i chi rhoi'r gorau iddynt cyn y prawf hwn (atodedig).

Beth sy'n digwydd yn y sgan?

Bydd gwifrau'r ECG yn cael eu rhoi ar eich brest, a bydd cwff pwysedd gwaed yn cael ei roi ar eich braich chwith. Rhoddir trwyth i chi yng ngwythïen eich braich, a fydd yn newid llif y gwaed i gyhyrau eich calon, yn yr un modd ag ymarfer corff. Ar yr un pryd, byddwch chi'n gorwedd ar wely goleddol, ac efallai gofynnir i chi ddechrau pedalu. Efallai byddwch chi'n profi anghysur, sy'n rhan o'r prawf, ond dylech chi roi gwybod i'r staff am unrhyw symptomau.

Yn ystod y cyfnod hwn o ymarfer corff, mae'r olinydd ymbelydrol yn cael ei chwistrellu, sy'n cael ei sugno gan gyhyrau'r galon yn gymesur â'r cyflenwad gwaed y mae wedi'u derbyn.

Ar ôl yr ymarfer corff, bydd yn rhaid i chi gael digon o ddiodydd, a rhywbeth brasterog i'w fwyta. Gofynnir i chi ddychwelyd ar gyfer eich sgan oddeutu 45 munud ar ôl y pigiad sy'n cynnwys yr olinydd.

Wedyn, bydd yn rhaid i chi orwedd ar soffa tra bydd tair gwifren ECG yn cael eu rhoi ar eich brest. Wedyn, caiff y camera ei leoli uwchben eich brest, ac yna gwneir y sgan. Mae'r broses ddelweddu hon yn cymryd oddeutu 20 munud i'w chwblhau.

Beth sy'n digwydd ar ôl y sgan?

Bydd technolegydd yn gwirio i sicrhau y cafwyd sgan boddhaol. Os bydd angen sgan o'r galon pan fyddwch yn gorffwys, fel arfer mae hyn yn cael ei gynnal ar ddiwrnod arall, a fydd yn cael ei drefnu yn ystod eich ymweliad. Cewch chi adael unwaith y cytunir ar hyn. Gallwch chi yrru adref a pharhau â'ch gweithgareddau arferol.

Bydd canlyniadau'r sgan yn cael eu hesbonio i chi yn eich apwyntiad nesaf yn y Clinig Cleifion Allanol, neu yn y feddygfa os ydy eich Meddyg Teulu wedi eich atgyfeirio chi.

A fydd e'n brifo? Ydy e'n anghyfforddus?

Nac ydy, heblaw am y pigiad, sy'n debyg i brawf gwaed. Hefyd, nid oes rhaid i chi ddadwisgo'n gyfan gwbl, ond bydd yn rhaid i ni gysylltu electrodau'r ECG â'ch brest. Rhoddir clogyn i fenywod wisgo dros wifrau'r ECG.

A oes unrhyw sgil-effeithiau i'r olinydd ymbelydrol?

Mae gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear ymhlith y profion delweddu diagnostig mwyaf diogel. Mae'r dos o ymbelydredd a dderbynnir o'r sgan hwn yn gyfwerth â 30 mis o ymbelydredd cefndirol yn y DU (ac yn debyg i'r dos a dderbynnir o sgan CT diagnostig).

CYFARWYDDIADAU PWYSIG:

1. Ffoniwch yr Adran Meddygaeth Niwclear ar (01792 285295) i gadarnhau eich presenoldeb.
2. Efallai bydd yn rhaid i chi beidio â chymryd eich meddyginiaeth (gan gynnwys cyffuriau sydd â chaffein ynddynt) cyn eich sgan. Gwiriwch y rhestr atodedig.
3. Os ydych chi'n feichiog, neu os ydych chi'n bwydo ar y fron, cysylltwch â'r adran.
4. Os ydych chi'n dioddef o anymataliaeth neu os ydych chi'n derbyn triniaeth dialysis, cysylltwch â'r adran.
5. Bwytewch frecwast ysgafn cyn dod i'r adran, a dewch â rhywbeth brasterog i'w fwyta, fel caws neu frechdan facwn.
6. Argymhellir i fenywod wisgo trowsus ac esgidiau fflat.
7. Yfwch ddigon drwy gydol y dydd, cyn ac ar ôl eich apwyntiad.
8. Ar ôl i chi gael y pigiad, osgowch gyswllt agos â phlant neu fenywod beichiog.
9. Peidiwch â rhoi samplau gwaed neu wrin dros y 24 awr nesaf.
10. Teithio: mae gan rai meysydd awyr, porthladdoedd a gorsafoedd trenau fonitorau ymbelydredd sensitif a allai gael eu hactifadu gennych chi ar ôl y sgan, felly dylech chi gario eich llythyr apwyntiad am 7 diwrnod.

Ysbyty Singleton

CYNLLUN SAFLE



Cyfarwyddiadau o draffordd yr M4

O unrhyw gyffordd rhwng 42 a 47, dilynwch arwyddion Canolfan Dinas Abertawe i ddechrau, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y Gŵyr a'r Mwmbwls. Bydd arwyddion Ysbyty Singleton yn amlwg ger ffiniau'r ddinas. Mae Heol Sgeti ar yr A4216.



06/07

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

YSBYTY SINGLETON

MEDDYGAETH NIWCLEAR

Apwyntiad ar gyfer eich Sgan Darlifiad Myocardiaidd (Calon)

Darllenwch y daflen hon yn ofalus ac ewch i'r Adran Meddygaeth Niwclear ar gyfer yr apwyntiad isod

Enw

Rhif Ysbyty

Manylion yr Apwyntiad

Dyddiad

Amser

PWYSIG
Ffoniwch yr
Adran Meddygaeth Niwclear ar (01792) 285295
i gadarnhau eich apwyntiad.